



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 1726 (Cy.189)

2003 No. 1726 (W.189)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

ATAL CREULONDEB

PREVENTION OF CRUELTY

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid a
Ffermir (Cymru) (Diwygio)
2003**

**The Welfare of Farmed Animals
(Wales) (Amendment) Regulations
2003**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2682 (Cy.223)) er mwyn gweithredu:-

These Regulations amend the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/2682 (W.223)) in order to implement:-

Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/88/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 91/630/EEC sy'n pennu safonau gofynnol ar gyfer diogelu moch (OJ Rhif L 316, 1.12.2001, t.1), a

Council Directive 2001/88/EC amending Directive 91/630/EEC laying down minimum standards for the protection of pigs (OJ No. L 316, 1.12.2001, p.1), and

Chyfarwyddeb y Comisiwn 2001/93/EC sy'n diwygio Cyfarwyddeb 91/630/EEC sy'n pennu safonau gofynnol ar gyfer diogelu moch (OJ Rhif L 340, 11.12.1991, t. 33).

Commission Directive 2001/93/EC amending Directive 91/630/EEC laying down minimum standards for the protection of pigs (OJ No. L 340, 11.12.1991, p. 33).

Mae'r holl ddiwygiadau wedi'u hymgorffori mewn Atodlen 6 newydd a fewnosodir gan y Rheoliadau hyn sy'n pennu safonau ar gyfer cadw moch ac yn ymdrin yn gyntaf â safonau sy'n gymwys i bob mochyn ac yna yn ymdrin â gwahanol fathau o foch yn eu tro (rhannau II-VI).

All the amendments have been incorporated into a new Schedule 6 inserted by these Regulations which lays down standards for keeping pigs and deals first with standards applicable to all pigs and then with different types of pig in turn (Parts II-VI).

Mewn perthynas â'r daliadau hynny sydd newydd gael eu hadeiladu neu eu hailadeiladu neu sydd wedi dechrau cael eu defnyddio am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2003, bydd yr holl ddarpariaethau yn y Rheoliadau yn gymwys.

In respect of those holdings that are newly built or rebuilt or brought into use for the first time after 1st January 2003, all the provisions contained in the Regulations will apply.

Mewn perthynas â'r daliadau hynny a sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar y dyddiad hwnnw, ni fydd darpariaethau penodol yn gymwys ar unwaith. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Rheoliad 2.

In respect of those holdings that are already in use on that date, certain provisions will not apply immediately. These are set out in Regulation 2.

Mae'r prif newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan y Rheoliadau hyn fel a ganlyn:

Mae'r Rheoliadau yn cyflwyno dyletswydd ar y person sy'n cyflogi personau neu'n eu cymryd ymlaen i ofalu am foch i sicrhau eu bod wedi cael cyfarwyddiadau a chanllawiau ar y Rheoliadau hyn. Mae'r dyletswydd hwn yn ychwanegiad at y dyletswydd a gynhwysir yn rheoliad 10 o Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 i sicrhau bod y person sy'n gofalu am yr anifeiliaid yn gyfarwydd â'r cod lles, bod modd iddo gael gafael ar gopi a'i fod wedi cael hyfforddiant a chanllawiau ar y codau.

Mae gofynion ychwanegol ar gyfer llety yn cael eu cyflwyno gan baragraff 6 o ran II.

Mae paragraff 8 o Ran II yn newid y gofyniad ar gyfer goleuadau. Dylid darllen hwn ar y cyd â pharagraff 16 o Atodlen 1 i Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 ac â'r cod lles.

Mae'r Rheoliadau yn cyflwyno lledau mwyaf agoriadau a lledau isaf estyll ar gyfer lloriau estyll concrit. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn gymwys i ddaliadau sy'n bodoli eisoes tan 2013.

Mae'r Rheoliadau yn cyflwyno darpariaethau manylach mewn perthynas â chyfoethogi amgylcheddol ar gyfer moch.

Mae gwaharddiad ar sŵn cyson neu sydyn neu sŵn uwchlaw 85dBA yn cael ei gyflwyno.

Mae paragraffau 20-26 o Ran II yn cyflwyno darpariaethau manylach ynglŷn ag ymyriadau llawfeddygol megis tocio cynffonnau a chlipio dannedd.

Rhaid bod gan gorlannau baeddod sydd i'w defnyddio ar gyfer serfio naturiol o leiaf 10m² o arwynebedd llawr dirwysr. Ni fydd y ddarpariaeth hon yn gymwys i ddaliadau sy'n bodoli eisoes tan 2005.

Mae'r Rheoliadau yn cyflwyno gofyniad i hychod a banwesi gael eu cadw mewn adeilad gyda'i gilydd.

Mae paragraffau 38-40 o Ran IV yn cyflwyno gofynion ar gyfer arwynebedd lloriau ar gyfer hychod a banwesi. Ni fydd y darpariaethau hyn yn gymwys i ddaliadau sy'n bodoli eisoes tan 2013.

Mae'r Rheoliadau yn cynyddu oedran diddwyn isaf ar gyfer porchelli o 21 i 28 diwrnod ac eithrio ar gyfer y rhai sy'n defnyddio systemau cynhyrchu pob-un-mewn-pob-un-allan.

Paratowyd arfarniad rheoliadol, ac mae ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru - www.cymru.gov.uk. Gellir cael copïau oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Adran Iechyd Anifeiliaid, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

The main changes introduced by these Regulations are as follows.

The Regulations introduce a duty on the person who employs or engages persons to care for pigs to ensure that they have received instructions and guidance on these Regulations. This duty is an addition to the duty contained in regulation 10 of the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001 to ensure that the person attending to the animals is acquainted with the welfare code, has access to a copy and has received instruction and guidance on the codes.

Additional requirements for accommodation are introduced by paragraph 6 of part II.

Paragraph 8 of Part II changes the requirement for lighting. This should be read in conjunction with paragraph 16 of Schedule 1 to the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001 and with the welfare code.

The Regulations introduce maximum widths of openings and minimum slat widths for concrete slatted floors. This provision will not apply to existing holdings until 2013.

The Regulations introduce more detailed provisions relating to environmental enrichment for pigs.

A prohibition on constant or sudden noise or noise above 85dBA is introduced.

Paragraphs 20-26 of Part II introduce more detailed provisions relating to surgical interventions such as tail docking and tooth clipping.

Boar pens used for natural service must have a minimum unobstructed floor area of 10m². This provision will not apply to existing holdings until 2005.

The Regulations introduce a requirement for sows and gilts to be group housed.

Paragraphs 37-39 of Part IV introduce requirements for floor areas for sows and gilts. These provisions will not apply to existing holdings until 2013.

The Regulations increase the minimum weaning age for piglets from 21 to 28 days except for those using all-in-all-out production systems.

A regulatory appraisal has been prepared and is available on the National Assembly for Wales web-site - www.wales.gov.uk. Copies can be obtained from the Welsh Assembly Government, Animal Health Division, Crown Buildings, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2003 Rhif 1726 (Cy.189)**2003 No. 1726 (W.189)****ANIFEILIAID, CYMRU****ANIMALS, WALES****ATAL CREULONDEB****PREVENTION OF CRUELTY****Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003****The Welfare of Farmed Animals (Wales) (Amendment) Regulations 2003**

Wedi'u gwneud 9 Gorffennaf 2003
Yn dod i rym 14 Gorffennaf 2003

Made 9th July 2003
Coming into force 14th July 2003

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968(a) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(b) ac ar ôl ymgynghori (yn unol ag adran 2 o'r Ddeddf 1968 a enwyd) ag unrhyw bersonau sy'n ymddangos iddo eu bod yn cynrychioli unrhyw fuddiannau o dan sylw ac y mae'n barnu eu bod yn briodol, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by section 2 of the Agriculture (Miscellaneous Provisions) Act 1968(a) and now vested in it(b), and after consultation (in accordance with section 2 of the said 1968 Act) with such persons appearing to it to represent any interests concerned as it has considered appropriate, makes the following Regulations:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 ac maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Gorffennaf 2003.

Title, application and commencement

1.-(1) These Regulations are called the Welfare of Farmed Animals (Wales)(Amendment) Regulations 2003 and apply in relation to Wales.

(2) These Regulations come into force on 14th July 2003.

Darpariaethau Trosiannol

2.-(1) Mae darpariaethau paragraff 29(2) o Atodlen 6 i Reoliadau Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001(c), fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â daliadau sydd newydd gael eu hadeiladu, eu hailadeiladu neu sydd wedi dechrau cael eu defnyddio am y tro cyntaf ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003, ond yn achos pob rheoliad arall ni fydd y darpariaethau hyn yn gymwys hyd 1 Ionawr 2005.

(2) Mae darpariaethau paragraffau 13, 37, 38 a 39 o Atodlen 6 i'r Rheoliadau hynny yn gymwys mewn perthynas â daliadau sydd newydd gael eu hadeiladu, eu hailadeiladu neu sydd wedi dechrau cael eu defnyddio am y tro cyntaf ar neu ar ôl 1 Ionawr 2003, ond yn achos pob rheoliad arall ni fydd y darpariaethau hyn yn gymwys hyd 1 Ionawr 2013.

Transitional Provisions

2.-(1) The provisions of paragraph 29(2) of Schedule 6 to the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001(c) as amended by these Regulations apply in relation to holdings newly built, rebuilt or brought into use for the first time on or after 1st January 2003, but in the case of all other holdings these provisions do not apply until 1st January 2005.

(2) The provisions of paragraphs 13, 37, 38 and 39 of Schedule 6 to those Regulations apply in relation to all holdings newly built, rebuilt or brought into use for the first time on or after 1st January 2003, but in the case of all other holdings these provisions do not apply until 1st January 2013.

(a) 1968 p.34.

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 2001/2682 (Cy.223), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1898 (Cy. 199).

(a) 1968 c.34.

(b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 S.I. 1999/672.

(c) S.I. 2001/2682 (W.223), as amended by S.I. 2002/1898 (W.199).

Diwygiadau i Reoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001

3.-(1) Diwygir Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) 2001 yn unol â darpariaethau canlynol y Rheoliad hwn:

(2) Yn rheoliad 2 mewnosodir y paragraff canlynol ar ôl paragraff (4):

(5) Mae i'r ymadroddion sydd heb eu diffinio ym mharagraff (1) uchod ac sy'n ymddangos yng Nghyfarwydddebau'r Cyngor 91/630/EEC(a) a 2001/88/EC(b) a Chyfarwydddeb y Comisiwn 2001/93/EC(c) yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt at ddibenion y ddeddfwriaeth Gymunedol honno.

(3) Ar ôl rheoliad 8 mewnosodir y rheoliad canlynol-

"Hyfforddi

8A. Rhaid i unrhyw berson sy'n cyflogi neu'n llogi person i ofalu am foch sicrhau fod y person hwnnw wedi derbyn cyfarwyddiadau a chanllawiau ar ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn sy'n ymwneud â moch."

(4) Rhoddir yr Atodlen ganlynol yn lle Atodlen 6:

"ATODLEN 6

Rheoliadau 2(3) ac 8

AMODAU YCHWANEGOL SY'N GYMWYS I GADW MOCH

RHAN I

DEHONGLI

1. Yn yr Atodlen hon -

ystyr "baedd" ("*boar*") yw mochyn gwryw ar ôl ei flaenaeddfedrwydd, a fwriedir ar gyfer bridio;

ystyr "banwes" ("*gilt*") yw mochyn benyw a fwriedir ar gyfer bridio ar ôl ei blaenaeddfedrwydd a chyn porchella;

ystyr "hwch" ("*sow*") yw mochyn benyw ar ôl iddi borchella am y tro cyntaf;

ystyr "mochyn magu" ("*rearing pig*") yw mochyn o ddeg wythnos hyd at ladd neu serfio;

ystyr "porchell" ("*piglet*") yw mochyn o'i enedigaeth hyd at ei ddiddyfnu; ac

ystyr "porchell diddwyn" ("*weaner*") yw mochyn o'i ddiddyfnu hyd at 10 wythnos oed.

(a) OJ Rhif L 340, 11.12.1991, t.33.

(b) OJ Rhif L 316, 1.12.2001, t.1.

(c) OJ Rhif L 316, 1.12.2001, t.36.

Amendments to the Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001

3.-(1) The Welfare of Farmed Animals (Wales) Regulations 2001 are amended in accordance with the following provisions of this Regulation:

(2) In regulation 2 the following paragraph is inserted after paragraph (4):

(5) Expressions which are not defined in paragraph (1) above and which appear in Council Directives 91/630/EEC(a) and 2001/88/EC(b) and Commission Directive 2001/93/EC(c) have the same meaning in these Regulations as they have for the purposes of that Community legislation.

(3) After regulation 8 the following regulation is inserted -

"Training

8A. Any person who employs or engages persons to care for pigs must ensure that that person has received instructions and guidance on the provisions of these Regulations which relate to pigs."

(4) Schedule 6 is substituted by the following Schedule:

"SCHEDULE 6

Regulations 2(3) and 8

ADDITIONAL CONDITIONS THAT APPLY TO THE KEEPING OF PIGS

PART I

INTERPRETATION

1. In this Schedule -

"boar" ("*baedd*") means a male pig after puberty, intended for breeding;

"gilt" ("*banwes*") means a female pig intended for breeding after puberty and before farrowing;

"piglet" ("*porchell*") means a pig from birth to weaning;

"rearing pig" ("*mochyn magu*") means a pig from ten weeks to slaughter or service;

"sow" ("*hwch*") means a female pig after the first farrowing; and

"weaner" ("*porchell diddwyn*") means a pig from weaning to the age of ten weeks.

(a) OJ No. L 340, 11.12.1991, p.33.

(b) OJ No. L 316, 1.12.2001, p.1.

(c) OJ No. L 316, 1.12.2001, p.36.

RHAN II

AMODAU YCHWANEGOL CYFFREDINOL

Arolygu

2. Rhaid i bob mochyn gael ei arolygu gan berchennog neu geidwad y moch o leiaf unwaith y dydd i weld a yw mewn cyflwr iachus.

3. Os bydd angen, rhaid ynysu moch sâl neu anafus mewn llety addas gyda gwasarn cysurus sych.

Tennynau

4. Ni chaiff neb roi tennyn na pheri rhoi tennyn ar unrhyw fochyn ac eithrio pan fydd yn mynd o dan archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at unrhyw ddiben milfeddygol.

5.-(1) Pan ganiateir defnyddio tennynau yn unol â pharagraff 4, rhaid iddynt beidio â pheri anaf i'r moch a rhaid eu harolygu'n rheolaidd a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn ffitio'n gysurus.

(2) Rhaid i bob tennyn fod o ddigon o hyd i ganiatáu i'r moch symud fel a bennir ym mharagraff 6(2) isod a rhaid i'r dyluniad fod yn un a fydd yn osgoi, cyn belled â phosibl, unrhyw risg o dagu, poen neu anaf.

Llety

6.-(1) Rhaid i bob mochyn fod yn rhydd i droi o amgylch heb anhawster bob amser.

(2) Rhaid i'r llety a ddefnyddir ar gyfer moch gael ei adeiladu yn y fath fodd ag i ganiatáu i bob mochyn -

- (a) sefyll, gorwedd a gorffwyso heb anhawster;
- (b) cael lle glân, cysurus sydd wedi'i draenio'n ddigonol y gall orffwyso ynddo;
- (c) gweld moch eraill, onid yw'r mochyn wedi'i ynysu am resymau milfeddygol;
- (ch) cadw ei dymheredd yn gysurus; a
- (d) cael digon o le i ganiatáu i'r holl anifeiliaid orwedd yr un pryd.

7.-(1) Rhaid i faintioli unrhyw gôr neu gorlan a ddefnyddir ar gyfer cadw moch unigol yn unol â'r Rheoliadau hyn fod o'r fath nad yw'r arwynebedd mewnol yn llai na hyd y mochyn wedi'i sgwario, ac nad yw unrhyw ochr fewnol yn llai na 75% o hyd y mochyn, ac ym mhob achos mae hyd y mochyn yn cael ei fesur o flaen ei drwyn hyd at fôn ei gynffon tra bydd yn sefyll gyda'i gefn yn syth.

PART II

GENERAL ADDITIONAL CONDITIONS

Inspection

2. All pigs shall be inspected by the owner or keeper of the pigs at least once a day to check that they are in a state of well being.

3. Where necessary, sick or injured pigs shall be temporarily isolated in suitable accommodation with dry comfortable bedding.

Tethering

4. No person shall tether or cause to be tethered any pig except while it is undergoing any examination, test, treatment or operation carried out for any veterinary purpose.

5.-(1) Where the use of tethers is permitted in accordance with paragraph 4, they shall not cause injury to the pigs and shall be inspected regularly and adjusted as necessary to ensure a comfortable fit.

(2) Each tether shall be of sufficient length to allow the pigs to move as stipulated in paragraph 6(2) below and the design shall be such as to avoid, as far as possible, any risk of strangulation, pain or injury.

Accommodation

6.-(1) A pig shall be free to turn round without difficulty at all times.

(2) The accommodation used for pigs shall be constructed in such a way as to allow each pig to -

- (a) stand up, lie down and rest without difficulty;
- (b) have a clean, comfortable and adequately drained place in which it can rest;
- (c) see other pigs, unless the pig is isolated for veterinary reasons;
- (d) maintain a comfortable temperature; and
- (e) have enough space to allow all the animals to lie down at the same time.

7.-(1) The dimension of any stall or pen used for holding individual pigs in accordance with these Regulations shall be such that the internal area is not less than the square of the length of the pig, and no internal side is less than 75% of the length of the pig, the length of the pig in each case being measured from the tip of its snout to the base of its tail while it is standing with its back straight.

(2) Ni fydd paragraff 7(1) yn gymwys mewn perthynas â mochyn benyw am y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y diwrnod y byddai'n porchella yn ôl y disgwyl a'r diwrnod y byddai'n diddyfnu ei pherchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll y byddai'n eu maethu), wedi'i gwblhau.

(3) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn drwy gadw mochyn mewn côr neu gorlan -

- (a) tra bydd o dan unrhyw archwiliad, prawf, triniaeth neu lawdriniaeth a wneir at ddibenion milfeddygol;
- (b) at ddibenion serfio, cyfebru artiffisial neu gasglu semen;
- (c) tra caiff ei fwydo ar unrhyw achlysur arbennig;
- (ch) at ddibenion ei farcio, ei olchi neu ei bwyso;
- (d) tra bydd ei lety'n cael ei lanhau; neu
- (dd) tra bydd yn disgwyl cael ei lwytho ar gyfer ei gludo,

ar yr amod nad yw'r cyfnod pan yw'r mochyn yn cael ei gadw felly yn hwy na'r hyn y mae ei angen at y diben hwnnw.

(4) Ni fydd person yn euog o dramgwydd yn unol â rheoliad 13(1) o dorri neu fethu â chydymffurfio â'r paragraff hwn am gadw mochyn mewn côr neu gorlan y gall y mochyn fynd iddo neu iddi neu ei (g)adael fel y myn, ar yr amod yr eir i'r côr neu'r gorlan o gôr neu gorlan y mae'r mochyn yn cael ei gadw ynddynt heb fynd yn groes i'r paragraff hwn.

Adeiladau â golau artiffisial

8. Pan gedwir moch mewn adeilad â golau artiffisial, yna, rhaid darparu golau y mae ei ddwysedd yn 40 lux o leiaf am gyfnod o 8 awr y dydd o leiaf yn ddarostyngedig i Atodlen 1, paragraff 16, i'r Rheoliadau hyn.

Atal ymladd

9.-(1) Os cedwir moch gyda'i gilydd, rhaid cymryd mesurau i atal ymladd sy'n mynd y tu hwnt i ymddygiad normal.

(2) Rhaid i foch sy'n dangos eu bod yn gyson ymosodol tuag at eraill neu'n dioddef ymosodiadau o'r fath gael eu hynysu neu eu cadw ar wahân i'r grŵp.

Glanhau a diheintio

10.-(1) Rhaid i adeiladau, corlannau, cyfarpar a theclynnau a ddefnyddir ar gyfer moch gael eu glanhau a'u diheintio'n gywir i'r graddau y mae'n angenrheidiol i atal trawsheintio ac i atal organeddau sy'n cario clefydau rhag crynhoi.

(2) Paragraph 7(1) does not apply to a female pig for the period between seven days before the predicted day of her farrowing and the day on which the weaning of her piglets (including any piglets fostered by her) is complete.

(3) A person shall not be guilty of an offence in accordance with regulation 13(1) of contravening or failing to comply with this paragraph by reason of the keeping of a pig in a stall or pen -

- (a) while it is undergoing any examination, test, treatment or operation carried out for veterinary purposes;
- (b) for the purposes of service, artificial insemination or collection of semen;
- (c) while it is fed on any particular occasion;
- (d) for the purposes of marking, washing or weighing it;
- (e) while its accommodation is being cleaned; or
- (f) while it is awaiting loading for transportation,

provided that the period during which it is so kept is not longer than necessary for that purpose.

(4) A person shall not be guilty of an offence in accordance with regulation 13(1) of contravening or failing to comply with this paragraph by reason of the keeping of a pig in a stall or pen which the pig can enter or leave at will, provided that the stall or pen is entered from a stall or pen in which the pig is kept without contravention of this paragraph.

Artificially lit buildings

8. Where pigs are kept in an artificially lit building then, lighting with an intensity of at least 40 lux shall be provided for a minimum period of 8 hours per day subject to Schedule 1, paragraph 16, to these Regulations.

Prevention of fighting

9.-(1) If pigs are kept together, measures shall be taken to prevent fighting which goes beyond normal behaviour.

(2) Pigs which show persistent aggression towards others or are victims of such aggression shall be isolated or kept separate from the group.

Cleaning and disinfection

10.-(1) Housing, pens, equipment and utensils used for pigs must be properly cleaned and disinfected as necessary to prevent cross-infection and the build-up of disease-carrying organisms.

(2) Rhaid i ysgarthion, wrin a bwyd sydd heb ei fwyta neu wedi'i gollu gael ei symud cyn amled ag y mae'n angenrheidiol i leihau'r aroglau ac i osgoi denu pryfed neu gnofilod.

Gwasarn

11. Pan ddarperir gwasarn, rhaid iddo fod yn lân, yn sych a heb fod yn niweidiol i'r moch.

Lloriau

12. Pan gedwir moch mewn adeilad, rhaid i'r lloriau -

- (a) fod yn llyfn heb fod yn llithrig er mwyn rhwystro anaf i'r moch;
- (b) gael eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal yn y fath fodd ag i beidio â pheri anaf na dioddefaint i'r moch wrth iddynt sefyll neu orwedd arnynt;
- (c) fod yn addas ar gyfer maint a phwysau'r moch; ac
- (ch) os nad oes unrhyw laesodr yn cael ei ddarparu, ffurfio arwyneb caled, gwastad a sefydlog.

13. Pan fydd lloriau estyll concrit yn cael eu defnyddio ar gyfer moch sy'n cael eu cadw mewn grwpiau, rhaid i led uchaf yr agoriadau fod yn -

- (a) 11mm ar gyfer perchyll;
- (b) 14 mm ar gyfer perchyll diddwyn;
- (c) 18mm ar gyfer moch magu;
- (ch) 20 mm ar gyfer banwesi ar ôl serfio a hychod;

rhaid i led isaf estyll fod yn -

- (d) 50 mm ar gyfer perchyll a pherchyll diddwyn;
- (dd) 80 mm ar gyfer moch magu, banwesi ar ôl serfio a hychod.

Bwydo

14.-(1) Rhaid bwydo pob mochyn o leiaf unwaith y dydd.

(2) Pan fydd grŵp o foch yn cael eu cadw mewn adeilad heb gyfle di-dor i gael bwyd, neu pan nad ydynt yn cael eu bwydo drwy system fwydo awtomatig sy'n bwydo'r anifeiliaid fesul unigolyn, rhaid bod modd i bob mochyn fynd at y bwyd yr un pryd â'r lleill sydd yn y grŵp bwydo.

Dŵr yfed

15. Rhaid bod modd parhaol i bob mochyn dros ddwy wythnos oed gael cyflenwad digonol o ddwr yfed ffres.

(2) Faeces, urine and uneaten or spilt food must be removed as often as necessary to minimise smell and avoid attracting flies or rodents.

Bedding

11. Where bedding is provided, this must be clean, dry and not harmful to the pigs.

Floors

12. Where pigs are kept in a building, floors shall -

- (a) be smooth but not slippery so as to prevent injury to the pigs;
- (b) be so designed constructed and maintained as not to cause injury or suffering to pigs standing or lying on them;
- (c) be suitable for the size and weight of the pigs; and
- (d) where no litter is provided, form a rigid, even and stable surface.

13. When concrete slatted floors are used for pigs kept in groups the maximum width of the openings must be -

- (a) 11mm for piglets;
- (b) 14 mm for weaners;
- (c) 18mm for rearing pigs;
- (d) 20 mm for gilts after service and sows;

the minimum slat width must be -

- (e) 50 mm for piglets and weaners;
- (f) 80 mm for rearing pigs, gilts after service and sows.

Feeding

14.-(1) All pigs must be fed at least once a day.

(2) Where pigs are housed in a group and do not have continuous access to feed, or are not fed by an automatic feeding system, feeding the animals individually, each pig must have access to the food at the same time as the others in the feeding group.

Drinking water

15. All pigs over two weeks of age must have permanent access to a sufficient quantity of fresh drinking water.

Cyfoethogi'r amgylchedd

16. Er mwyn i weithgareddau ymchwilio a thrafod priodol allu cymeryd lle, rhaid bod modd parhaol i bob mochyn fynd at gyflenwad digonol o ddeunyddiau megis gwellt, gwair, pren, blawd llif, compost madarch, mawn neu gymysgedd o ddeunyddiau o'r fath nad yw yn effeithio'n andwyol ar iechyd yr anifeiliaid.

Gwahardd defnyddio'r system flwch-chwysu

17. Rhaid peidio â chadw moch mewn amgylchedd sy'n golygu cynnal tymereddau uchel a lleithder uchel (amgylchedd a elwir y "system flwch-chwysu").

Lefelau sŵn

18. Rhaid peidio â rhoi moch mewn sefyllfa lle maent yn agored i sŵn cyson neu sydyn Rhaid osgoi lefelau sŵn uwchlaw 85dBA yn y rhan honno o unrhyw adeilad lle mae moch yn cael eu cadw.

Ymyriadau

19. Ac eithrio fel y nodir ym mharagraffau 21 i 26 o'r Atodlen hon, rhaid peidio â chyflawni unrhyw weithdrefnau ymyrryd fyddai'n arwain at niweidio neu gollu darn sensitif o'r corff neu newid strwythur yr esgyrn, heblaw at ddibenion therapiwtig neu ddiagnostig.

20. Ni chaniateir gweithredu'r gweithdrefnau a nodir ym mharagraffau 21-26 o'r Atodlen hon ac eithrio o dan amodau hylan gan filfeddyg, neu os yw'n cael ei ganiatáu o dan y gyfraith, gan berson sydd wedi'i hyfforddi yn unol â'r rheoliadau hyn ac sy'n brofiadol ym maes gweithredu'r gweithdrefnau.

21. Rhaid peidio â defnyddio'r gweithdrefnau canlynol fel rhan o'r drefn ac eithrio pan fydd tystiolaeth bod anafiadau i dethi hychod neu i glustiau neu gynffonnau moch eraill wedi digwydd:

- (a) byrhau cildannedd perchyll yn unffurf drwy eu rhygnu neu eu clipio heb fod yn hwyrach na'r seithfed diwrnod ym mywyd y perchyll gan adael wyneb llyfn cyfan;
- (b) tocio rhan o'r gynffon,

ond ni chaniateir byrhau dannedd na thocio cynffonnau oni bai mesurau eraill i wella amodau amgylcheddol neu systemau rheoli wedi'u cymryd er mwyn atal brathu cynffonnau a gwendidau eraill.

22. Caniateir disbaddu moch gwryw ar yr amod na fydd dull a ddefnyddir yn golygu rhwygo meinweoedd.

23.-(1) Os yw docio cynffonnau yn cael ei wneud ar ôl y seithfed diwrnod ym mywyd y mochyn, rhaid peidio â'i gyflawni ond o dan anesthetig ac analgesia estynedig ychwanegol gan filfeddyg.

Environmental enrichment

16. To enable proper investigation and manipulation activities to take place, all pigs must have permanent access to a sufficient quantity of material such as straw, hay, wood, sawdust, mushroom compost, peat or a mixture of such which does not adversely affect the health of the animals.

Prohibition on the use of the sweat-box system

17. Pigs shall not be kept in an environment which involves maintaining high temperatures and high humidity (known as the "sweat-box system").

Noise levels

18. Pigs shall not be exposed to constant or sudden noise. Noise levels above 85dBA shall be avoided in that part of any building where pigs are kept.

Interventions

19. Save as set out in paragraphs 21 to 26 of this Schedule, no intervention procedures which result in damage to or loss of a sensitive part of the body or the alteration of the bone structure shall be carried out except for therapeutic or diagnostic purposes.

20. The procedures set out in paragraphs 21-26 of this Schedule may only be carried out under hygienic conditions by a veterinary surgeon, or where it is legally permitted, by a person who has been trained in accordance with these regulations and who is experienced in performing the procedures.

21. The following procedures shall not be carried out routinely but only where there is evidence that injuries to sows teats or to other pigs' ears or tails have occurred:

- (a) uniform reduction of corner teeth of piglets by grinding or clipping not later than the seventh day of life of the piglets leaving an intact smooth surface;
- (b) docking of a part of the tail,

but no tooth reduction or tail docking may be carried out unless other measures to improve environmental conditions or management systems have been taken in order to prevent tail biting and other vices.

22. Male pigs may be castrated provided the means employed do not involve tearing of tissues.

23.-(1) If docking of tails is carried out after the seventh day of the pig's life it shall only be performed under anaesthetic and additional prolonged analgesia by a veterinary surgeon.

(2) Os yw disbaddu yn cael ei wneud ar ôl y seithfed diwrnod ym mywyd y mochyn, rhaid peidio â'i gyflawni ond gan filfeddyg yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Anifeiliaid (Anesthetigau) 1954(a).

24. Caniateir byrhau ysgithredd baeddod pan fydd angen er mwyn atal anafiadau i anifeiliaid eraill neu am resymau diogelwch.

25. Ni chaniateir rhoi modrwyau trwyn ar anifeiliaid sy'n cael eu cadw'n barhaus mewn systemau hwsmona dan do.

26. Caniateir tagio clustiau neu fylchu clustiau at ddibenion adnabod.

RHAN III BAEDDOD

27. Rhaid lleoli ac adeiladu corlannau baeddod i ganiatáu i'r baedd droi o amgylch a chlywed, gweld ac aroglu moch eraill, a rhaid iddynt gynnwys mannau gorffwys glân.

28. Rhaid i'r man gorffwys fod yn sych ac yn gysurus.

29.-(1) Rhaid i arwynebedd dirwystr lleiaf y llawr ar gyfer baedd llawndwf fod yn 6m², ac eithrio fel a nodir ym mharagraff (b) o'r paragraff hwn.

(2) Pan fydd corlannau baeddod yn cael eu defnyddio hefyd ar gyfer serfio naturiol, rhaid i arwynebedd y llawr fod yn 10m² o leiaf a rhaid iddo fod yn rhydd rhag unrhyw rwystrau.

RHAN IV HYCHOD A BANWESI

30. Rhaid rhoi triniaeth i fanwesi, os bydd angen, rhag parasitiaid allanol a mewnol.

Porchella

31. Os ydynt yn cael eu rhoi mewn cratiau porchella, rhaid i hychod a banwesi gael eu glanhau'n drylwyr.

32. Yn yr wythnos cyn yr amser y disgwylir iddynt borchella rhaid rhoi digon o ddeunydd nythu addas i hychod a banwesi onid yw'n dechnegol annichonol i'r system slyri sy'n cael ei defnyddio.

33. Yn ystod amser porchella, rhaid bod lle dirwystr ar gael y tu ôl i'r hwch neu'r fanwes i hwyluso porchella yn naturiol neu drwy gymorth.

(a) 1954 p.46.

(2) If castration is carried out after the seventh day of the pig's life it shall only be performed by a veterinary surgeon in accordance with the provisions of the Protection of Animals (Anaesthetics) Act 1954 (a).

24. Boars' tusks may be reduced in length where necessary to prevent injuries to other animals or for safety reasons.

25. Nose rings may not be put in animals kept continuously in indoor husbandry systems.

26. Ear tagging or ear notching may be carried out for identification purposes.

PART III BOARS

27. Boar pens shall be sited and constructed so as to allow the boar to turn round and to hear, see and smell other pigs, and shall contain clean resting areas.

28. The lying area shall be dry and comfortable.

29.-(1) The minimum unobstructed floor area for an adult boar shall be 6m² save as set out in sub-paragraph (b) of this paragraph.

(2) When boar pens are also used for natural service, the floor area must be at least 10m² and must be free of any obstacles.

PART IV SOWS AND GILTS

30. Pregnant gilts shall, where necessary, be treated against external and internal parasites.

Farrowing

31. If they are placed in farrowing crates, pregnant sows and gilts shall be thoroughly cleaned.

32. In the week before the expected farrowing time sows and gilts must be given suitable nesting material in sufficient quantity unless it is not technically feasible for the slurry system used.

33. During farrowing, an unobstructed area behind the sow or gilt shall be available for the ease of natural or assisted farrowing.

(a) 1954 c.46.

34. Rhaid i gorlannau porchella lle cedwir hychod yn rhydd gael rhyw fodd i amddiffyn y perchyll, megis rheiliau porchella.

35. Yn yr wythnos cyn yr amser y disgwylir iddynt borchella ac yn ystod y cyfnod porchella, caniateir i hychod a banwesi gael eu cadw allan o olwg moch eraill.

Lletya mewn grwpiau

36. Rhaid cadw hychod a banwesi mewn grwpiau ac eithrio yn ystod y cyfnod rhwng saith diwrnod cyn y diwrnod porchella disgwylidig a'r diwrnod y mae diddyfnu'r perchyll (gan gynnwys unrhyw berchyll sy'n cael eu maethu) yn cael ei gwblhau.

37. Rhaid bod gan y gorlan lle mae'r grŵp yn cael ei gadw ochrau sy'n fwy na 2.8m eu hyd, ac eithrio pan fydd llai na chwe mochyn yn y grwp, ac os felly rhaid i ochrau'r gorlan beidio â bod yn llai na 2.4m eu hyd.

38. Rhaid i'r arwynebedd llawr dirwystr cyfan sydd ar gael i bob banwes ar ôl serfio ac i bob hwch pan fydd banwesi a/neu hychod yn cael eu cadw mewn grwpiau fod yn 1.64m² a 2.25 m² o leiaf yn y drefn honno. Pan fydd yr anifeiliaid hyn yn cael eu cadw mewn grwpiau o lai na chwe mochyn, rhaid cynyddu 10% ar yr arwynebedd llawr dirwystr. Pan fydd yr anifeiliaid hyn yn cael eu cadw mewn grwpiau o 40 neu ragor o foch, caniateir lleihau 10% ar yr arwynebedd llawr dirwystr.

39. Ar gyfer banwesi ar ôl serfio a hychod torrog rhaid i ran o'r arwynebedd sy'n ofynnol o dan baragraff 38 fod yn hafal i 0.95m² fesul banwes o leiaf ac 1.3m² fesul hwch o leiaf fod yn llawr cadarn parhaus y mae uchafswm o 15% ohono wedi'i neilltuo ar gyfer agoriadau traenio.

40. Caniateir i hychod a banwesi sy'n cael eu cadw ar ddaliadau o lai na 10 hwch gael eu cadw fesul anifail unigol ar yr amod bod eu llety yn cydymffurfio â gofynion paragraffau 6 a 7 o ran II o'r Atodlen hon.

41. Yn ychwanegol at ofynion paragraff 14 o Ran II o'r atodlen hon, rhaid i hychod a banwesi gael eu bwydo drwy ddefnyddio system sy'n sicrhau bod modd i bob unigolyn gael gafael ar ddigon o fwyd hyd yn oed pan fydd cystadleuwyr am y bwyd yn bresennol.

42. Rhaid rhoi i bob hwch a banwes dorrog hesb ddigon o swmpfwyd neu fwyd ffibr uchel yn ogystal â bwyd ynni uchel i ddigoni eu chwant bwyd a'u hangen i gnoi .

34. Farrowing pens where sows are kept loose must have some means of protecting the piglets, such as farrowing rails.

35. In the week before the expected farrowing time and during farrowing, sows and gilts may be kept out of sight of other pigs.

Group housing

36. Sows and gilts shall be kept in groups except during the period between seven days before the predicted day of farrowing and the day on which the weaning of piglets (including any piglets fostered) is complete.

37. The pen where the group is kept must have sides greater than 2.8m in length, except when there are less than 6 pigs in the group, when the sides of the pen must be no less than 2.4m in length.

38. The total unobstructed floor area available to each gilt after service and to each sow when gilts and/or sows are kept in groups must be at least 1.64 m² and 2.25 m² respectively. When these animals are kept in groups of less than 6 pigs the unobstructed floor area must be increased by 10%. When these animals are kept in groups of 40 or more pigs, the unobstructed floor area may be decreased by 10%.

39. For gilts after service and pregnant sows a part of the area required in paragraph 38 equal to at least 0.95m² per gilt and at least 1.3m² per sow must be of continuous solid floor of which a maximum of 15% is reserved for drainage openings.

40. Sows and gilts kept on holdings of fewer than 10 sows may be kept individually provided that their accommodation complies with the requirements of paragraphs 6 and 7 of part II of this Schedule.

41. In addition to the requirements of paragraph 14 of Part II of this Schedule, sows and gilts must be fed using a system which ensures that each individual can obtain sufficient food even when competitors for the food are present.

42. All dry pregnant sows and gilts must be given a sufficient quantity of bulky or high fibre food as well as high energy food to satisfy their hunger and need to chew.

RHAN V
PERCHYLL

43. Os bydd angen, rhaid darparu ar gyfer perchyll ffynhonnell wres a man gorwedd cadarn, sych a chysurus i ffwrdd o'r hwch lle gall pob un ohonynt orffwys yr un pryd.

44. Rhaid i ran o'r llawr cyfan lle mae'r perchyll ac sy'n ddigon mawr i ganiatáu i'r anifeiliaid orffwys gyda'i gilydd yr un pryd, fod yn gadarn neu wedi'i gorchuddio â mat neu o dan laesodr gwellt neu unrhyw ddeunydd addas arall.

45. Pan ddefnyddir crât porchella, rhaid i'r perchyll gael digon o le i'w galluogi i sugno heb drafferth.

46. Rhaid peidio â diddyfnu perchyll oddi wrth yr hwch pan fyddant yn llai na 28 diwrnod oed oni fyddai peidio â gwneud hynny yn effeithio'n andwyol ar les neu iechyd y fam neu'r perchyll.

47. Caniateir diddyfnu perchyll hyd at saith diwrnod ynghynt na'r cyfnod a bennir ym mharagraff 46 uchod os ydynt yn cael eu symud i adeiladau arbenigol sy'n cael eu gwagio a'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr cyn cyflwyno grŵp newydd a'r adeiladau hynny yn rhai ar wahân i'r rhai lle mae hychod eraill yn cael eu cadw.

RHAN VI
PERCHYLL DIDDWYN A MOCH MAGU

48. Rhaid rhoi moch mewn grwpiau cyn gynted â phosibl ar ôl eu diddyfnu. Rhaid eu cadw mewn grwpiau sefydlog gyda chyn lleied â phosibl o gymysgu.

49. Os oes rhaid cymysgu moch sy'n anghyfarwydd â'i gilydd, dylid gwneud hynny pan fyddant mor ifanc â phosibl, o ran dewis cyn neu hyd at un wythnos ar ôl diddyfnu. Pan fydd moch yn cael eu cymysgu, rhaid rhoi digon o gyfleoedd iddynt ddianc a chuddio rhag moch eraill.

50. Rhaid cyfyngu'r defnydd ar feddyginiaeth dawelu er mwyn hwyluso cymysgu i amodau eithriadol a dim ond ar ôl ymgynghori â milfeddyg.

51. Pan fydd arwyddion ymladd difrifol yn ymddangos, rhaid ymchwilio ar unwaith i'r achosion a rhaid cymryd camau priodol.

52. Rhaid i'r arwynebedd llawr dirwystr sydd ar gael i bob porchell diddwyn neu fochyn magu sy'n cael ei fagu mewn grŵp fod o leiaf -

PART V
PIGLETS

43. If necessary, piglets shall be provided with a source of heat and a solid, dry and comfortable lying area away from the sow where all of them can rest at the same time.

44. A part of the total floor where the piglets are and which is large enough to allow the animals to rest together at the same time, must be solid or covered with a mat or be littered with straw or any other suitable material.

45. Where a farrowing crate is used, the piglets must have sufficient space to be able to be suckled without difficulty.

46. Piglets shall not be weaned from the sow at an age of less than 28 days unless the welfare or health of the dam or piglets would otherwise be adversely affected.

47. Piglets may be weaned up to seven days earlier than the period specified in paragraph 46 above if they are moved into specialised housings which are emptied and thoroughly cleaned and disinfected before the introduction of a new group and which are separate from housing where other sows are kept.

PART VI
WEANERS AND REARING PIGS

48. Pigs shall be placed in groups as soon as possible after weaning. They shall be kept in stable groups with as little mixing as possible.

49. If pigs unfamiliar with one another have to be mixed, this should be done at as young an age as possible, preferably before or up to one week after weaning. When pigs are mixed they shall be provided with adequate opportunities to escape and hide from other pigs.

50. The use of tranquillising medication in order to facilitate mixing shall be limited to exceptional conditions and only after consultation with a veterinary surgeon.

51. When signs of severe fighting appear, the causes shall be immediately investigated and appropriate measures shall be taken.

52. The unobstructed floor area available to each weaner or rearing pig reared in a group shall be at least -

- (a) yn 0.15 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn 10 kg neu lai;
- (b) yn 0.20 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 10 kg ond yn llai nag 20 kg neu'n hafal i hynny;
- (c) yn 0.30 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy nag 20 kg ond yn llai na 30 kg neu'n hafal i hynny;
- (ch) yn 0.40 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 30 kg ond yn llai na 50 kg neu'n hafal i hynny;
- (d) yn 0.55 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 50 kg ond yn llai na 85 kg neu'n hafal i hynny;
- (dd) yn 0.65 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 85 kg ond yn llai na 110kg neu'n hafal i hynny; ac
- (e) yn 1.00 metr sgwâr ar gyfer pob mochyn lle mae pwysau cyfartalog y moch yn y grŵp yn fwy na 110 kg."

- (a) 0.15 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is 10 kg or less;
- (b) 0.20 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 10 kg but less than or equal to 20 kg;
- (c) 0.30 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 20 kg but less than or equal to 30 kg;
- (d) 0.40 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 30 kg but less than or equal to 50 kg;
- (e) 0.55 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 50 kg but less than or equal to 85 kg;
- (f) 0.65 square metres for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 85 kg but less than or equal to 110 kg; and
- (g) 1.00 square metre for each pig where the average weight of the pigs in the group is more than 110 kg.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

9 Gorffennaf 2003

9th July 2003

D.Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£2.50

W141/7/03

ON

ISBN 0-11-090754-X



9 780110 907543